24c Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

Ffôn: 01269 595400
Ffacs: 01269 598510

Un Llais Cymru
One Voice Wales

24c College Street
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 3AF

Phone: 01269 595400
Fax: 01269 598510

Mae Un Llais Cymru wedi cael arian trwy Lywodraeth Cymru i edrych ar yr heriau sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'r rhaglen yn rhedeg tan fis Mawrth 2026

O dan enw Tîm Costau Byw Un Llais Cymru, ein gwaith yw dysgu am yr holl fentrau a gweithgareddau cadarnhaol sy'n cael eu harwain gan ein cynghorau cymuned a thref.

Rydym yn gobeithio rhannu enghreifftiau o arfer gorau ledled Cymru a galluogi cynghorau cymuned a thref i ddatblygu ac ychwanegu at eu cynlluniau presennol i gefnogi gyda'r argyfwng costau byw.

Yn y lle cyntaf byddwn yn eich gwahodd i rannu manylion eich gweithgareddau presennol o ran ymgysylltu â'r gymuned a mentrau costau byw, megis boreau coffi, hybiau cynnes, prydau bwyd am ddim, banciau bwyd, a chasgliadau banciau bwyd a'r holl ffyrdd blaengar eraill yr ydych oll yn gweithio'n galed i gefnogi eich cymunedau lleol.

Bydd arolwg yn cael ei ddanfon cyn bo hir at bob cyngor cymuned a thref yng Nghymru er mwyn inni allu gweld beth sy'n cael ei gynnig ac ymhle, ac rydym yn gyffrous iawn i weld beth sydd wedi bod yn digwydd ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i lywio a chefnogi camau a chynlluniau eraill y gallech fod yn awyddus i'w trefnu.

Dyma'r Tîm:

Julie Jones; Rheolydd Prosiect Argyfwng Costau Byw Cafodd Julie ei geni a'i magu yn Abertawe ac mae'n byw gyda'i phartner a'i phlant mewn oed yn ardal Llandeilo Ferwallt. Cafodd Julie yrfa hir yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig gyda'r awdurdod lleol, a gweithiodd mewn nifer o rolau ar draws y gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau. Er 2007 bu'n gweithio yn y busnes teuluol ond mae wedi cadw diddordeb byw mewn gwaith cymunedol yn ei milltir sgwâr a thu hwnt. Mae Julie wedi bod ynghlwm wrth nifer fawr o fentrau dros y blynyddoedd, gan gynnwys llu o weithgareddau a drefnwyd i gefnogi ei chymuned leol yn ystod y pandemig. Mae ganddi brofiad helaeth o'r sector preifat fel cyn berson busnes a gwybodaeth eang iawn am wasanaethau statudol a'r trydydd sector. Etholwyd Julie yn gynghorydd cymuned ar gyfer Wardiau Llandeilo Ferwallt a Murton. Bu hefyd yn rhiant lywodraethwraig a llywodraethwraig gymunedol yn yr ysgol gyfun leol ers blynyddoedd lawer.

Emma Goode: Swyddog Prosiect Argyfwng Costau Byw Cafodd Emma ei geni a'i magu yn Y Fenni ac wedi gweithio i ffwrdd daeth yn ôl yno i fagu ei theulu 18 mlynedd yn ôl. Gweithiodd Emma ym meysydd cyflawni prosiectau a marchnata yn y sector preifat am 15 mlynedd a rhedodd ei busnes manwerthu ei hun yn Y Fenni lle y gweithiodd yn agos gyda'r cyngor tref a grwpiau eraill i drefnu mentrau busnes, cymunedol ac elusennol. Am y 9 mlynedd diwethaf bu Emma yn Gynghorydd Busnes ar wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn cefnogi dros 1500 o gwmnïau SME i ddechrau, tyfu a datblygu eu busnesau.

Angela Oakes: Swyddog Cefnogi Prosiect Argyfwng Costau Byw

Mae Angela wedi ymgartrefu yn y Gogledd ers 25 mlynedd lle y mae'n byw gyda'i gŵr a'i dau blentyn yn eu harddegau, ond cafodd ei geni a'i magu yn Dudley yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Cafodd ei hyfforddi'n newyddiadurwraig darlledu, a gweithiodd yn y cyfryngau cyn cymryd swydd Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid gyda Chyngor Dosbarth Salisbury lle y cafodd flas mawr ar yr her o rymuso tenantiaid i fynd i'r afael â materion tai. Am yr 20 mlynedd diwethaf yn gweithio gyda'i gŵr, casglodd wybodaeth eang iawn am werthu corfforaethol a'r sector preifat fel perchnogion busnes portreadau teuluol llwyddiannus. Mae wedi bod yn awyddus erioed i gefnogi grwpiau ac elusennau lleol a bu'n llywodraethwr ysgol yn ysgol gynradd ei phlant am flynyddoedd lawer. Yn y blynyddoedd diwethaf gweithiodd gyda Chyngor Cymuned Rhyd-y-Foel a Llanddulas lle y bu'n cefnogi gyda materion sy'n effeithio pobl sy'n byw yn y gymuned.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.